**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2024 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | C M J Evans | E W Fitzgerald |
| L James | D H Jenkins | M Jones |
| S M Jones | J W Jones | M W Locke |
| B J Rowlands | W G Thomas | M S Tribe |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Mark Wade | Cyfarwyddwr – Lleoedd |
| Paul Relf | Rheolwr Adfywio Economaidd Strategol |
| Katy Evans | Arweinydd Tîm Canol y Ddinas |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): M H Jones

---

67 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

68 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim.

69 **Cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

70 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

71 **Adroddiad Archwilio Cymru - 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru**

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod nesaf y Panel ar 9 Ebrill.

72 **Cyflawniad yn erbyn Blaenoriaethau Corfforaethol / Amcanion / Ymrwymiadau Polisi ar gyfer Datblygiad ac Adfywio**

Trafododd y Cynghorydd Robert Francis-Davies a Paul Relf yr adroddiad a oedd yn crynhoi'r meysydd gwaith a'r cyflawniadau o fewn yr adrannau cynllunio ac adfywio'r ddinas.

- Mae gwaith ar y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yn mynd rhagddo gyda chymorth ariannol yn cael ei ddarparu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r Gronfa Ffyniant Bro.
- Mae nifer o grantiau strategol ar gael i alluogi sefydlogrwydd yn y sector preifat a'r trydydd sector, gyda chanol y ddinas yn elwa o fenthyciadau, creu lleoedd a grantiau strategol.
- Mae gwesty newydd yn cael ei drafod a byddai'n cael ei leoli rhwng yr Arena a'r LC, mae'n debygol o fod yn westy 4 seren / o safon uchel.
- Mae gan saith ardal y tu allan i ganol y ddinas gynlluniau creu lleoedd sy'n cael eu datblygu. Bydd y rhain yn cael eu datblygu cyn gynted â phosib gan ddefnyddio cyllid sydd ar gael, a chyda chyfyngiadau ar y gallu dylunio a chontractio.
- Mae creu swyddi yn tyfu drwy grantiau dechrau busnes a datblygu/gwella busnes a chyllid ffyniant a rennir y DU. Trafodwyd hefyd gadw'r swyddi sydd wedi'u hariannu a denu cwmnïau newydd i'r ardal.
- Gofynnodd y Panel gwestiynau, ac am ddiweddariadau datblygu am hen safle Debenhams, Sgwâr y Castell, Gwesty'r Dragon, Gwesty'r Dolphin, y Ganolfan Ddinesig a Bae Copr.

73 **Diweddariad ar Brosiect Adfywio - 71-72 Kingsway**

Cyflwynodd Robert Francis-Davies a Katy Evans yr adroddiad. Nodwyd y canlynol:

- Mae cwblhau'r safle yn ymarferol wedi cael ei ohirio ychydig wythnosau o'i darged gwreiddiol o ddiwedd mis Mawrth.
- Mae trafodaethau gyda darpar denantiaid yn parhau a rhagwelir y bydd yr adeilad yn cael ei osod yn llawn o fewn cyfnod rhesymol o amser ond nid ar ôl ei gwblhau'n ymarferol.
- Mae'r datblygiad wedi elwa o £13.7m o gyllid y Fargen Ddinesig.
- Gofynnodd y Panel gwestiynau am Arcêd Picton, storio beiciau, y galw am swyddfeydd, marchnata a chyllid y Fargen Ddinesig.

74 **Cynllun Gwaith**

Nodwyd y cynllun gwaith gyda sôn am y newidiadau i agenda fis nesaf.

75 **Llythyrau**

76 **Gwahardd y Cyhoedd**

Gwaharddwyd y cyhoedd o'r cyfarfod am y rheswm y byddai'n cynnwys y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i nodir ym Mharagraff 14 Adran 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

77 **Diweddariad ar Brosiect Adfywio - 71-72 Kingsway**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.32am.

**Cadeirydd**